**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr BrynbugaThe Council Chamber, County Hall, Rhadyr. Usk. NP15 1GA Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2020 at 10.00 am**

**PRESENT:** Cynghorydd Sirol B. Strong (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: S. Howarth, A. Easson, M.Lane, J.Treharne, R. Edwards, D. Evans and L. Guppy

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| David Jones | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd |
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol A. Webb

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Adolygiad o Ffioedd Trwyddedau Blynyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020/2021.**

Derbyniwyd adroddiad am y Ffioedd Trwyddedu blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd:

(i) cymeradwyo'r ffioedd a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, dan y teitl "Rhestr Ffioedd Trwyddedau ar gyfer 2020-21", yn amodol, lle'n berthnasol, ar unrhyw hysbysiad cyhoeddus gofynnol.

(ii) bod unrhyw wrthwynebiad, a wneir yn gywir, parthed ffioedd ar gyfer dyfarnu trwyddedau ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hur preifat yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ar y cyfle cynharaf i gael yr ystyriaeth briodol.

3. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd Cofnodion y Cyfarfod Trwyddedu a Rheoleiddiol dyddiedig 28 Tachwedd 2019 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, codwyd y pwyntiau dilynol:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr BrynbugaThe Council Chamber, County Hall, Rhadyr. Usk. NP15 1GA Dydd Mawrth, 14eg Ionawr, 2020 at 10.00 am**

- Drafft Bolisi Trwyddedu 2020 – Cyflwynir y drafft bolisi i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo yn y misoedd nesaf.

- Masnachu Stryd yn y Fenni – Caniatâd Masnachu Stryd Bloc fel yn Chwefror 2020. Mae Cyngor y Dref yn dymuno gweithio gydag Adran Stadau Cyngor Sir Fynwy gyda golwg ar fynd â'r mater ymlaen. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor maes o law.

- Cais am drwydded i Tuk Tuk fel Cerbyd Hur Preifat. Bu'r Adran Trwydddedu mewn cysylltiad gyda Depot Llan-ffwyst gyda golwg ar roi lleoliad. Sefydlir dyddiad ar gyfer Chwefror 2020 lle gall y Pwyllgor weld y cerbyd. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gyda Swyddog Trwyddedu, yn teithio yn y cerbyd ar hyd y llwybr arfaethedig.

Mewn ymateb i gwestiwn, er mwyn cael cymhariaeth debyg, nodwyd y dylem fod yn edrych ar awdurdodau gwledig a fedrai fod yn trwyddedu gweithredu'r math hwn o gerbyd. Fodd bynnag, nodwyd mai Cyngor Dinas Caerdydd oedd yr unig awdurdod gyda pholisi ar y mater hwn oedd wedi ymateb i Adran Trwyddedu'r Cyngor Sir.

4. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020 am 10.00am.

**The meeting ended at 10.17 am**